**RHEOLWR YR HEN LYS / DIRPRWY GLERC Y DREF**

Cyngor: Cyngor Tref Rhuthun Sir: Sir Ddinbych
Cyflog: Cyflog gradd SCP 19 – 23 (Cyd-gyngor Cenedlaethol) (pro rata): £24,799 - £26,999

Rhan amser - 22.5 awr yr wythnos

Mae Cyngor Tref Rhuthun yn Gyngor blaengar sydd wrth graidd cymuned leol lewyrchus, ac mae'n chwilio am unigolyn ar gyfer y swydd amrywiol a chyfrifol hon, i sefydlu a rheoli canolbwynt newydd y dref yn Yr Hen Lys a gweithio gyda Chlerc y Dref, Sandra Williams, yn cynnal Swyddfa'r Clerc.

Bydd y deilydd y swydd yn cyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Chanolfan y Dref, yn cynnwys trefnu arddangosfeydd, y detholiad o eitemau manwerthu, marchnata digwyddiadau a chydlynu tîm o wirfoddolwyr, yn ogystal â chefnogi pob agwedd o ddyletswyddau Clerc y Dref.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus arddangos profiad gweinyddol cadarn, sgiliau Technoleg Gwybodaeth da a'r gallu i weithio gyda'r gymuned, ar ran y gymuned. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ac ymdrin â'r busnes yn ddwyieithog yn ddymunol ar gyfer y swydd.

Bydd deilydd y swydd yn gweithio'n agos gyda'r Cynghorwyr i gyflawni amcanion y Cyngor, yn ogystal â chynorthwyo gyda'r gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd.

Mae'r swydd yn un 22.5 awr yr wythnos, sy'n cynnwys bod yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd a digwyddiadau gyda'r nos, yn unol â chalendr dyddiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw.

Lleolir y swydd i ddechrau yn:
Neuadd y Dref Rhuthun
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1AS

ac yna, unwaith y bo'r gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau a'r adeilad yn cael ei ddefnyddio, yn:
Yr Hen Lys
Sgwâr Sant Pedr
Rhuthun
LL15 1DW

Edrychwch ar ein gwefan www.cyngortrefrhuthun.gov.uk i lawrlwytho Disgrifiad Swydd llawn a ffurflen gais.

**Dyddiad cau ymgeisio am y swydd: Hanner dydd, ddydd Llun, 8 Gorffennaf 2019.**
Cynhelir cyfweliadau ddydd Llun, 15 Gorffennaf 2019, yn Neuadd y Dref, Rhuthun.

Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod ar gael ar y dyddiad hwn petaent yn cael eu dethol ar gyfer cyfweliad.

*Mae Cyngor Tref Rhuthun yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau gan bob cangen o'r gymuned.*

# RHEOLWR YR HEN LYS / DIRPRWY GLERC Y DREF - DISGRIFIAD SWYDD

## 1. PWRPAS Y SWYDD

Bydd y deilydd y swydd yn cyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Chanolfan y Dref, yn cynnwys trefnu arddangosfeydd, y detholiad o eitemau manwerthu, marchnata digwyddiadau a chydlynu tîm o wirfoddolwyr, yn ogystal â chefnogi pob agwedd o ddyletswyddau Clerc y Dref.

Gweithio mewn ymgynghoriad gyda Chlerc y Dref, a dirprwyo yn ei absenoldeb, i sicrhau bod gweithdrefnau rheoli o ddydd i ddydd yn effeithiol, darparu gwybodaeth a llunio adroddiadau ar gyfer pwyllgorau, fel bo'n ofynnol, i sicrhau gweithredu penderfyniadau'r Cyngor a'i Bwyllgorau'n effeithiol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg a chynnal busnes y Cyngor yn ddwyieithog yn ddymunol.

## 2. PRIF DASGAU

- Cydlynu calendr dgiwyddiadau / bwcio'r lleoliad, a hyrwyddo llogi'r Hen Lys i uchafu'r incwm
- Cydlynu arddangosfeydd celf bob deufis
- Trefnu'r arddangosfa nwyddau manwerthu, rheoli'r stoc, archebu, rheoli'r cyfrifon a gweithio gyda manwerthwyr
- Cydlynu criw gwirfoddolwyr / Ffrindiau'r Hen Lys
- Gweinyddu'r Tîm Tref Taclus (sy'n cyfarfod yn fisol) a Fforwm y Dref (sy'n cyfarfod bob deufis)
- Rheoli a diweddaru gwefan y Cyngor Tref yn rheolaidd a, lle bo'n briodol, diweddaru'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu eraill, er mwyn hysbysu'r gymuned am flaenoriaethau'r Cyngor
- Cynorthwyo Clerc y Dref i sicrhau rheoli darparu gwasanaethau a chyllidebau'n effeithiol
- Mynychu / dirprwyo yn absenoldeb a gyda chytundeb Clerc y Dref cyfarfodydd y Cyngor Tref a sicrhau cadw cofnodion cywir a chadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r Cyngor mewn trefn dda
- Gweithio gyda Chlerc y Dref a'r Cynghorwyr i adnabod ffyrdd y gall y cyngor gryfhau ei berthynas gyda'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol ymhellach
- Cynorthwyo Clerc y Dre i sicrhau rheoli contractau blynyddol ac adnewyddu yswiriant y Cyngor mewn modd effeithiol ac amserol
- Mynd ar gyrsiau hyfforddiant sy'n gysylltiedig gyda'r rôl, fel y cytunwyd gan Glerc y Dref a'r Cyngor

## 2. IECHYD A DIOGELWCH

- Gweithio gyda Chlerc y Dref i sicrhau rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol

## 4. ORIAU GWAITH

- 22.5 awr yr wythnos yn unol â chyfarwyddiadau Clerc y Dref. Bydd yr oriau'n hyblyg i gynnwys cyfarfodydd gyda'r nos yn fisol ac ar y penwythnos yn achlysurol.
- Gall fod yn ofynnol i ddeilydd y swydd ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill ar gais Clerc y Dref, sy'n cyd-fynd â gradd y swydd

## 5. CYDNABYDDIAETH

- Cyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NJC) SCP 19-23 (pro rata) £24,799 - £26,999
- Bydd cyfnod prawf 24 wythnos, a chynhelir adolygiadau bob 4 wythnos.  Gall y naill ochr derfynu'r cytundeb cyflogaeth trwy roi pythefnos o rybudd ysgrifenedig.